

Nodiadau cymorth Arweiniad Ymgeisio

Grantiau Treftadaeth
y Loteri Genedlaethol
£3,000–£10,000

Cynnwys



Gallwch glicio
i lywio'r
ddogfen hon

Cyflwyniad 3

1. Eich prosiect 4

2. Canlyniadau'r prosiect 8

3. Costau'r prosiect 11


4. Eich sefydliad 14

5. Dogfennau atodol 16

6. Gwybodaeth ychwanegol a datganiad 18

Cyflwyniad


Gallwch ddefnyddio'r canllaw hwn i'ch cynorthwyo i gwblhau'r ffurflen gais ar gyfer grantiau o £3,000 i £10,000. Mae'r ddogfen hon at ddibenion cyfeirio yn unig ac ni ddylid ei llenwi. Gallwch ddechrau eich cais ar-lein trwy fewngofnodi i'n gwefan. [↗](#)

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y cwestiynau ymgeisio fel y gallwch weld yr hyn y byddwn yn ei ofyn i chi cyn i chi gychwyn eich cais. Mae hefyd yn cynnwys rhai nodiadau cymorth i'ch helpu i ateb y cwestiynau. Mae'r rhain hefyd wedi eu cynnwys yn y ffurflen gais ar-lein pan fyddwch yn clicio'r eicon hwn: 

Mae'r ffurflen gais lawn ar gael i'w llenwi **ar-lein** [↗](#) yn unig.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y **canllawiau ymgeisio** [↗](#) cyn i chi wneud cais. Bydd y canllawiau ymgeisio yn eich helpu i baratoi eich cais ac maent yn cynnwys rhestr wirio ddefnyddiol i wneud yn siŵr eich bod yn barod i ymgeisio.

Cwestiynau'r ffurflen gais

Byddwch yn sylwi  nesaf at nifer o gwestiynau a datganiadau drwy'r ffurflen gais. Os byddwch yn clicio ar yr eicon, byddwch yn cael cynnig mwy o wybodaeth am yr hyn i'w gynnwys yn eich ateb neu esboniad o sut y mae rhan benodol o'r ffurflen yn gweithio.

- Ceir cyfyngiad geiriau ar gyfer rhai cwestiynau ac ni fyddwch yn gallu cyflwyno eich cais os byddwch yn mynd y tu hwnt i'r cyfyngiadau hyn. Nodir cyfyngiadau geiriau mewn cromfachau, a dylech ddefnyddio pwyntiau bwled os oes angen. Sylwer bod llinellau toriad yn y testun yn cyfrif fel geiriau llawn. Os byddwch yn penderfynu copio a gludo testun yn syth i'ch cais, adolygwch eich cais cyn ei gyflwyno a gwnewch newidiadau yn ôl yr angen i sicrhau nad ydych yn mynd y tu hwnt i'r cyfyngiad geiriau a nodir.
- Cofiwch gadw cynnydd eich cais wrth i chi weithio arno.

Defnyddiwch iaith eglur a syml a gofalwch eich bod yn cynnwys unrhyw ffeithiau neu ffigurau a fydd yn ein helpu i ddeall yr hyn yr ydych yn dymuno ei wneud a pham yr ydych yn dymuno ei wneud.

Byddwn yn asesu eich cais dim ond os gwnewch chi gyflenwi'r dogfennau atodol priodol ac ateb yr holl gwestiynau. Peidiwch ag anfon dogfennau ychwanegol gyda'ch cais.



Rhoddir yr eicon hwn wrth ymyl dolenni at fwy o wybodaeth sydd ar gael ar-lein.

1. Eich prosiect

Enw eich sefydliad

Bydd hwn yn llenwi'n awtomatig o'r wybodaeth a ddarparwyd gennych wrth gofrestru.

Rhif cyfeirnod y prosiect

Bydd hwn yn llenwi'n awtomatig.

Teitl y prosiect

Sylwer y bydd hwn yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ac yn cael ei weld gan y rheini sy'n gwneud penderfyniadau.

g Rydym yn argymhell cadw eich teitl yn syml ac i'r pwynt. Ceir cyfyngiad o 15 gair i deitl eich prosiect.

1a. Ai hwn yw cais cyntaf eich sefydliad i ni? Ie/Nage

Os nage: Rhowch rif cyfeirnod a theitl prosiect eich cais diweddaraf i ni.

1b. Disgrifiwch eich prosiect

Dywedwch wrthym:

- yr hyn y byddwch yn ei wneud
- pwy fydd yn cymryd rhan
- ar beth fyddwch chi'n gwario'r cyllid
- sut rydych yn bwriadu gwerthuso eich prosiect
- sut y byddwch yn rhannu'r hyn yr ydych wedi ei ddysgu gydag amrywiaeth eang o bobl

Sylwer mai'r disgrifiad y byddwch yn ei roi yma yw'r **unig** ran o'ch ffurflen gais a fydd yn cael ei gweld gan y rheini sy'n gwneud penderfyniadau. Cyflwynir hwn ochr yn ochr ag asesiad o'ch cais.

Ceir cyfyngiad o 500 o eiriau ar gyfer y cwestiwn hwn.

g Gwerthusiad:

Rydym yn disgwyl i bob ymgeisydd werthuso ei brosiect. Bydd angen i chi lunio cynllun gwerthuso ar ddechrau eich prosiect. Bydd hwn yn amlinellid o sut yr ydych yn mynd i gasglu data i fesur, dadansoddi a deall yr hyn yr ydych yn ei wneud ac i ddarparu tystiolaeth yn y pen draw o'r canlyniadau y mae eich prosiect wedi eu cyflawni. Dylech ddarparu adroddiad cryno (uchafswm o 10 tudalen) ar ddiwedd eich prosiect, sy'n adrodd hanes yr hyn a gyflawnwyd mewn fframwaith rhesymegol gan gyflwyno cysylltiadau rhwng gweithgareddau, allbynnau a'r canlyniadau ar gyfer pob elfen o'r prosiect.

Yr Iaith Gymraeg:

Os ydych yn darparu eich prosiect yng Nghymru, bydd angen i chi ddweud wrthym sut y byddwch yn hybu ac yn cefnogi'r Gymraeg ac adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru.

1c. Defnyddiwch y ddewislen blychau ticio i'n hysbysu am yr hyn y byddwch yn ei wneud

Dewiswch yr opsiynau sy'n berthnasol.

- Digwyddiadau cymunedol
- Dathlu llwyddiannau eich prosiect
- Pethau digidol fel ap ffôn clyfar, DVD neu wefan
- Byrddau arddangos
- Arddangosfeydd
- Tywyswyr/llwybrau
- Tafleini neu lyfrau
- Pecynnau i ysgolion
- Perfformiadau
- Digwyddiadau i weithwyr proffesiynol
- Adroddiadau arbenigol
- Datblygu gallu i godi arian
- Astudiaethau dichonoldeb
- Gwerthusiadau opsiynau
- Hyfforddiant i staff neu ymddiriedolwyr
- Arall

1d. Ble bydd eich prosiect yn digwydd?

Os bydd eich prosiect yn digwydd ar draws y gwahanol leoliadau, defnyddiwch y cod post lle bydd y rhan fwyaf o'r prosiect yn digwydd.

Ar gyfer prosiectau tirwedd, rhowch gyfeirnod grid Arolwg Ordnans ar gyfer eich tirwedd.

1e. Pryd ydych chi'n bwriadu dechrau a gorffen eich prosiect?

Nodwch ddyddiad dechrau a gorffen eich prosiect.

g Ni ddylai eich prosiect ddechrau cyn i ni ei asesu a'n bod wedi rhoi caniatâd i chi ddechrau eich prosiect.

Bydd angen i chi gyflwyno ffurflen ar-lein a darparu'r canlynol i ni er mwyn cael caniatâd i gychwyn:

- manylion eich cyfrif banc
- prawf perchnogaeth / gofynion lesddaliad (os yw'n berthnasol)
- manylion caniatâd statudol sy'n ofynnol ac a dderbyniwyd (os yw'n berthnasol)
- cadarnhad o gyllid cyfatebol (os yw'n berthnasol)

Cysylltwch â'ch swyddfa leol os nad ydych yn siŵr faint o amser i'w gynnwys yn eich amserlen ar gyfer yr agwedd hon.

Sylwer na ddylai eich prosiect bara mwy na blwyddyn.

Dylai dyddiad gorffen y prosiect gymryd i ystyriaeth yr amser sydd ei angen i gyflwyno eich adroddiad diwedd grant a'ch adroddiad gwerthuso.

1f. Dywedwch wrthym am y dreftadaeth yn eich prosiect, ei chyflwr presennol a pham mae'n bwysig i'ch sefydliad a'ch cymuned?

Ceir cyfyngiad o 300 o eiriau ar gyfer y cwestiwn hwn.

g Sylwer bod yn rhaid i'ch prosiect fod yn gysylltiedig â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol neu leol y DU.

1g. Dewiswch y math o dreftadaeth sy'n brif ganolbwynt i'ch prosiect:

Sylwer y cewch ddewis un opsiwn yn unig.

- Amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd a chasgliadau
- Treftadaeth gymunedol
- Tirweddau a natur
- Adeiladau hanesyddol a henebion
- Diwydiannol, morol a thrafnidiaeth
- Diwylliannau ac atgofion
- Archaeoleg
- Arall

g Treftadaeth gymunedol

Prosiectau sy'n canolbwyntio ar amrywiaeth o dreftadaeth mewn cymuned ddaearyddol, neu brosiectau yn ymwneud â chymuned benodol o ddi-ddordeb/cefndir cymdeithasol.

Diwydiannol, morol a thrafnidiaeth

Awyrennau, cerbydau modur, locomotifau, cerbydau rheilffordd, cychod neu longau, neu adeiladau, seilwaith arbennig / gosodiadau sefydlog a pheiriannau (e.e. pyllau glo) sy'n gysylltiedig â'n hanes diwydiannol, morol neu drafndiaeth.

Diwylliannau ac atgofion

Er enghraifft, prosiectau sy'n canolbwyntio ar gasglu hanesion llafar, ar draddodiadau diwylliannol fel cerddoriaeth neu ffasiwn, neu brosiectau yn ymwneud â threftadaeth iaith a thafodieithoedd.

1h. A fyddwch chi'n gwneud unrhyw waith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect? Byddwn/Na fyddwn

g Gwaith cyfalaf

Diffinnir gwaith cyfalaf fel gwaith sy'n creu neu'n gwella ased.

Mae gwaith cyfalaf yn golygu digideiddio, gwarchod arteffactau a gwrthrychau, gwaith atgyweirio a chadwraeth neu adeiladau newydd. Er enghraifft, byddai gwarchod rhostir, atgyweiriadau i gofeb rhyfel a digideiddio archif ffotograffig i gyd yn cael eu hystyried yn waith cyfalaf.

Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gwaith ffisegol, er enghraifft gwarchod adeilad hanesyddol neu waith adeiladu newydd, darllenwch adran gofynion perchnogaeth canllawiau'r rhaglen a chyfeiriwch at y canllawiau derbyn grant.

Caniatadau statudol neu drwyddedau

Er enghraifft, Caniatâd Adeilad Rhedredig, Caniatâd Cynllunio, Caniatâd Heneb Gofrestredig, Caniatâd Eglwysig, Trwyddedau Ystlumod neu i Gwmpo Coed ayyb.

Nid oes angen i chi fod wedi sicrhau caniatadau statudol a/neu drwyddedau cyn gwneud cais i ni.

Mae'n rhaid i bob caniatâd statudol a/neu drwydded fod ar waith cyn y gellir cychwyn eich prosiect.

Os byddwch, dywedwch wrthym:

- A ydych yn berchen ar y dreftadaeth i weithio arni
- Os nad ydych, pa un a oes gennych ganiatâd gan y perchennog
- A fydd y gwaith yn dilyn arfer cadwraeth da
- A oes angen unrhyw ganiatadau statudol neu drwyddedau ar y gwaith
- A yw'r caniatadau statudol neu drwyddedau ar waith

Ceir cyfyngiad o 200 o eiriau ar gyfer y cwestiwn hwn

1i. Beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod eich prosiect yn ystyriol o'r amgylchedd?


Er enghraifft:

- hysbysu pobl sut i gyrraedd eich safle neu ddigwyddiadau ar drafndiaeth gyhoeddus
- defnyddio platiau a chyllyll a ffyrc y gellir eu compostio/bioddiraddiadwy ar gyfer arlwyath digwyddiadau
- defnyddio cyflenwyr lleol
- defnyddio deunyddiau ailgylchu a/neu ystyriol o'r amgylchedd
- ailgylchu eich gwastraff
- hysbysu pobl am y mesurau amgylcheddol yr ydych wedi eu rhoi ar waith

Ceir cyfyngiad o 150 o eiriau ar gyfer y cwestiwn hwn

1j. Dywedwch wrthym beth fydd yn digwydd ar ôl i'ch prosiect ddod i ben?

Meddylwch am: Ble bydd y pethau yr ydych yn eu cynhyrchu yn mynd ar ôl i'ch prosiect ddod i ben, sut y bydd y canlyniadau yn cael eu cynnal a sut y byddwch yn rheoli eich treftadaeth yn y dyfodol.

 Ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys gwaith ffisegol – er enghraifft, cadwraeth i adeilad hanesyddol neu waith adeiladu newydd – darllenwch adran gofynion **perchnogaeth eiddo** canllawiau ymgeisio'r rhaglen.

Os bydd eich prosiect yn creu unrhyw beth mewn fformat digidol, darllenwch adran **allbynnau digidol** canllawiau ymgeisio'r rhaglen.

Dylech hefyd ddarllen ein telerau grant safonol am ragor o wybodaeth cyn cyflwyno eich cais.

Ceir cyfyngiad o 200 o eiriau ar gyfer y cwestiwn hwn

2. Canlyniadau'r prosiect

Dewiswch y canlyniad(au) y bydd eich prosiect yn eu cyflawni ac esboniwch sut y byddwch yn gwneud hyn:

Mae cyflawni'r canlyniad *'Bydd amrywiaeth ehangach o bobl yn cymryd rhan mewn treftadaeth'* yn ofyniad gorfodol.

Sylwer

- Ceir cyfyngiad o **300 o eiriau** ar gyfer yr adran hon
- **Nid ydym yn disgwyl** i chi gyflawni'r holl ganlyniadau a restrir
- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd angen i chi ddweud wrthym sut y gwnaeth eich prosiect gyflawni'r canlyniadau a ddewisir yn eich adroddiad diwedd grant.

g Newidiadau, dylanwadau, manteision neu unrhyw effeithiau sy'n digwydd o ganlyniad i'ch prosiect yw canlyniadau.

Bydd nifer y canlyniadau yr ydych yn eu cyflawni yn amrywio yn dibynnu ar y math o brosiect a dylai fod yn gymesur â maint y grant yr ydych yn gwneud cais amdano neu bwyslais penodol eich prosiect. Rydym yn disgwyl i brosiectau gyflawni rhai canlyniadau yn gryfach nag eraill. Er y gallai eich prosiect lwyddo yn fwy anuniongyrchol, canolbwytewch ar y canlyniadau sydd gryfaf, gan y byddwn yn monitro eich cynnydd a byddwch yn eu defnyddio yn eich gwerthusiad.

Bydd amrywiaeth ehangach o bobl yn cymryd rhan mewn treftadaeth

g Bydd mwy o bobl yn ymgysylltu â threftadaeth a bydd y gynulleidfa hon yn fwy amrywiol na'r sefyllfa cyn eich prosiect. Bydd newidiadau wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'ch prosiect, a'ch gwaith datblygu cynulleidfa ac ymgynghori cymunedol yn benodol, trwy gasglu a dadansoddi gwybodaeth am y bobl sy'n ymgysylltu â'ch treftadaeth – a'r rheini nad ydynt – cyn, yn ystod ac ar ôl eich prosiect.

Sut byddwch chi'n gwybod beth yr ydych wedi ei gyflawni?

Byddwch yn gallu dangos bod proffil eich cynulleidfa wedi newid. Er enghraifft, mae'n cynnwys pobl o amrywiaeth ehangach o oedrannau, ethnigrwydd a chefnidiroedd cymdeithasol; mwy o bobl anabl; neu grwpiau o bobl nad ydynt erioed wedi ymgysylltu â'ch treftadaeth o'r blaen. Byddwch yn gallu dangos sut y mae mwy o bobl, a gwahanol bobl, yn ymgysylltu â threftadaeth fel ymwelwyr, cyfranogwyr mewn gweithgareddau, neu wirfoddolwyr, yn ystod eich prosiect ac ar ôl iddo ddod i ben.

Bydd treftadaeth mewn cyflwr gwell

g Bydd gwelliannau i gyflwr ffisegol eich treftadaeth a'r dull o ofalu amdani yn y dyfodol. Gallai'r gwelliannau fod o ganlyniad i waith atgyweirio neu ailwampio neu waith i atal dirywiad pellach, fel trwsio to adeilad hanesyddol, gwarchod archif, clirio ffosydd caeau neu atgyweirio llong. Gallai gwelliannau hefyd ddeillio o waith newydd, er enghraifft cynyddu maint cynefin presennol i fod o fudd i rywogaeth flaenoriaethol, neu adeiladu adeilad newydd i warchod adfeilion, archaeoleg neu gerbydau hanesyddol.

Sut byddwch chi'n gwybod beth yr ydych wedi ei gyflawni?

Bydd y gwelliannau yn cael eu cydnabod trwy safonau a ddefnyddir gan arbenigwyr proffesiynol a threftadaeth, a/neu gan bobl yn fwy cyffredinol, er enghraifft mewn arolygon ymwelwyr neu drigolion lleol. Byddwch wedi rhoi cynllun rheoli a chynnal a chadw ar waith.

Bydd treftadaeth yn cael ei hadnabod a'i hesbonio'n well

g Bydd esboniadau mwy eglur a/neu ffyrdd newydd neu well o helpu pobl i wneud synnwyr o dreftadaeth. Gallai hyn gynnwys arddangosfeydd newydd mewn amgueddfa; ap ffôn clyfar yn cynnig gwybodaeth am fioamrywiaeth a geoamrywiaeth tirwedd; sgysiau neu deithiau mewn adeilad hanesyddol; lleoli gwaith ymchwil newydd mewn archifau sy'n hygyrch i'r cyhoedd; canllaw hygyrch ar dŷ hanesyddol; neu wybodaeth ar-lein am archifau.

Sut byddwch chi'n gwybod beth yr ydych wedi ei gyflawni?

Bydd ymwelwyr a defnyddwyr yn dweud wrthyh fod y dehongliad a'r wybodaeth yr ydych yn eu darparu o ansawdd uchel, yn hawdd eu defnyddio ac yn briodol ar gyfer eu hanghenion a'u diddordebau, eu bod yn cynyddu eu dealltwriaeth, a'u bod yn gwella eu profiad o dreftadaeth.

Bydd pobl wedi datblygu sgiliau

g Bydd unigolion wedi dysgu sgiliau sy'n berthnasol i sicrhau y gofalir am dreftadaeth yn well, ei bod yn cael ei rheoli'n well, yn cael ei deall yn well neu'n cael ei rhannu (gan gynnwys, ymhlith eraill, sgiliau cadwraeth, addysgu/hyfforddi, cynnal a chadw, digidol a rheoli prosiect). Gallai gweithgareddau hyfforddi strwythuredig gynnwys rhaglen fentora anffurfiol, hyfforddiant mewn swydd neu gysiau cryno allanol.

Sut byddwch chi'n gwybod beth yr ydych wedi ei gyflawni?

Bydd pobl sy'n cymryd rhan yn eich prosiect, gan gynnwys staff a gwirfoddolwyr, yn gallu dangos cymhwysedd mewn sgiliau newydd, penodol, a, phan fo'n briodol, byddant wedi ennill cymhwyster ffurfiol.

Bydd pobl wedi dysgu am dreftadaeth, gan arwain at newid i syniadau a champau gweithredu

G Bydd unigolion wedi datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o dreftadaeth gan eich bod wedi rhoi cyfleoedd iddynt gael profiad o dreftadaeth mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion ac yn cyd-fynd â'u diddordebau.

Sut byddwch chi'n gwybod beth yr ydych wedi ei gyflawni?

Bydd oedolion, plant a phobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymgydd, neu sy'n ymweld â'ch safle neu'n ymgysylltu â'ch treftadaeth mewn ffyrdd eraill, e.e. trwy dechnoleg ddigidol, yn gallu eich hysbysu am yr hyn y maent wedi ei ddysgu am dreftadaeth a pha wahaniaeth y mae hyn y ei wneud iddyn nhw a'u bywydau. Byddant hefyd yn gallu eich hysbysu am yr hyn y maent yn ei wneud gyda'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth hynny; er enghraifft, eu rhannu gyda phobl eraill, eu defnyddio yn eu bywyd proffesiynol neu gymdeithasol, neu ymgymryd ag astudiaethau pellach.

Bydd gan bobl fwy o lesiant

G Bydd unigolion yn teimlo bod ganddynt fwy o gysylltiad â'r bobl o'u cwmpas a/neu'r lle y maent yn byw o ganlyniad i gymryd rhan yn eich prosiect – dyna'r hyn yr ydym yn ei olygu wrth ddweud mwy o lesiant. I gyflawni'r canlyniad hwn, dylai eich prosiect gael ei ddylunio i effeithio ar lesiant (a chael ei ddatblygu gyda sefydliadau arbenigol os ydych yn bwriadu cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl neu bobl ag anableddau dysgu). Efallai y byddwch yn cynnig cyfleoedd i bobl fod yn fwy gweithredol (er enghraifft, gwirfoddoli mewn parc, cymryd rhan mewn archaeoleg gymunedol, rhannu sgiliau digidol) neu greu cysylltiadau newydd ag eraill.

Sut byddwch chi'n gwybod beth yr ydych wedi ei gyflawni?

Byddwch chi neu eich gwerthusydd allanol yn defnyddio dulliau gwerthuso cydnabyddedig ar gyfer mesur llesiant ac yn gofyn i'r bobl sy'n cymryd rhan sut maent yn teimlo. Bydd y rheini sy'n cymryd rhan yn hysbysu am fwy o hapusrwydd, mwy o foddhad a/neu fod bywyd yn teimlo'n fwy gwerth chweil o ganlyniad i gymryd rhan yn eich prosiect. Efallai y bydd rhai pobl yn dweud bod ganddynt lefelau is o orbryder.

Bydd y sefydliad a ariennir yn fwy cydnerth

G Bydd gan eich sefydliad fwy o allu i wrthsefyll bygythiadau, ymateb i gyfleoedd ac addasu i amgylchiadau sy'n newid i roi dyfodol mwy diogel i chi. Byddwch yn cyflawni'r cydnerthed uwch hwn trwy lywodraethu cryfach a mwy o gyfranogiad lleol yn eich sefydliad; sgiliau rheoli a staff cynyddol; ffynonellau newydd o arbenigedd a chynghor; a gweithio mewn partneriaeth i rannu gwasanaethau, staff ac adnoddau.

Sut byddwch chi'n gwybod beth yr ydych wedi ei gyflawni?

Efallai y bydd gennych wirfoddolwyr newydd sy'n cynyddu eich gallu a'ch sgiliau; neu ffynonellau newydd o incwm trwy weithgarwch masnachol, gwaddolion neu raglenni codi arian newydd. Byddwch yn gallu dangos bod eich sefydliad yn gryfach ac mewn sefyllfa well ar gyfer y dyfodol o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed gennych yn rhan o'ch prosiect.

Bydd yr ardal leol yn lle gwell i fyw ynddi, i weithio ynddi neu i ymweld â hi

g Bydd gan drigolion lleol ansawdd bywyd gwell a bydd yr ardal yn fwy deniadol yn gyffredinol. O ganlyniad i wella ymddangosiad safleoedd treftadaeth neu o'r cyfleoedd yr ydych wedi eu cynnig i bobl leol ymweld â threftadaeth, ei defnyddio, cymryd rhan ynddi a'i mwynhau, bydd trigolion yn hysbysu eu bod yn teimlo mwy o falchder yn yr ardal leol a/neu fod ganddynt fwy o synnwyr o berthyn.

Sut byddwch chi'n gwybod beth yr ydych wedi ei gyflawni?

Bydd aelodau'r gymuned yn hysbysu mwy o synnwyr o gyd-ddealltwriaeth a synnwyr gwell o gyd-dynnu â'i gilydd. Bydd ymwelwyr â'ch treftadaeth hefyd yn dweud wrthyhch fod yr ardal wedi gwella o ganlyniad uniongyrchol i'r prosiect a'r hyn y maent yn ei werthfawrogi amdano.

Bydd yr economi leol yn cael hwb

g Bydd incwm ychwanegol ar gyfer busnesau lleol presennol a/neu bydd busnesau newydd yn eich ardal leol. Byddwch yn gallu dangos bod busnesau lleol wedi elwa o'ch prosiect. Bydd hyn oherwydd eich bod wedi gwario eich grant yn lleol, neu oherwydd eich bod wedi annog mwy o ymweliadau twristiaeth â'r ardal leol, neu oherwydd i chi ddarparu safleoedd newydd ar gyfer busnesau a symudodd i'r ardal neu a wnaeth ehangu eu gweithrediadau yn yr ardal.

Sut byddwch chi'n gwybod beth yr ydych wedi ei gyflawni?

Byddwch yn gallu dangos bod y newidiadau hyn wedi dod o ganlyniad uniongyrchol i'ch prosiect. Byddwch yn gallu dangos hyn gan ddefnyddio gwybodaeth am yr economi leol cyn ac ar ôl eich prosiect, ar gael gan sefydliadau fel yr awdurdod lleol neu sefydliad twristiaeth.

3. Costau'r prosiect

3a. Costau'r prosiect

Rydym eisiau i chi ein hysbysu yn y rhan hon o'r ffurflen faint y bydd yn ei gostio i ddarparu eich prosiect.

g Defnyddiwch y golofn 'Disgrifiad' i roi mwy o fanylion am eich costau.

Os yw eich costau yn seiliedig ar gyfrifiadau, er enghraifft costau staff, darparwch y wybodaeth hon.

Ceir cyfyngiad o 30 o eiriau fesul disgrifiad.

Dylai'r holl gostau gynnwys TAW (oni bai y gallwch ei adennill yn rhywle arall).

Defnyddiwch y pennawd 'Arall' ar gyfer unrhyw gostau nad ydynt wedi eu cynnwys o dan y penawdau costau a restrir. Mae arian wrth gefn yn bennawd hanfodol gan ei fod yn dangos pa mor bwysig ydyw wrth ddarparu prosiectau.

Cyn i chi gychwyn:

- bydd eich cais am grant yn cael ei dalgrynnu i lawr i'r £100 agosaf
- mae'n rhaid i gyfanswm costau eich prosiect gyfateb i incwm eich prosiect
- mae eitemau digwyddiadol yn bennawd cost gorfodol gan fod y profiad yn dangos pa mor bwysig ydynt wrth ddarparu prosiectau. Os byddwch yn dewis peidio â dyrannu cost i'r pennawd hwn yna dylech esbonio pam yng nghwestiwn 3a.

Colofnau'r tabl

Pennawd cost

Dewiswch y pennawd cost priodol o'r rhestr a ddarperir. Byddwn yn gofyn i chi nodi gwariant yn erbyn y penawdau hyn ar ôl cwblhau'r prosiect.

Disgrifiad

Ychwanegwch ddisgrifiad cyffredinol. **Ceir cyfyngiad o 30 o eiriau fesul disgrifiad.**

Cost

Nodwch eich costau yn y golofn hon – gyda TAW (oni bai y gallwch adennill TAW o ffynhonnell arall).

Rhesi'r tabl (penawdau cost)

Costau staff newydd

Dylech gynnwys costau contractau tymor sefydlog newydd, secondiadau (pobl sy'n cael eu trosglwyddo i'ch sefydliad dros dro) a chostau staff ar eu liwt eu hunain i helpu i ddatblygu eich prosiect. Peidiwch â chynnwys costau talu hyfforddeion yma.

Mae'n rhaid i chi hefyd hysbysebu'r holl swyddi ar gyfer staff prosiect yn agored, gyda'r eithriadau canlynol:

- Mae gennych aelod o staff â chymwysterau priodol ar eich cyflogres yr ydych yn ei symud i swydd prosiect. (Mae angen i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer y swydd hon o hyd.)

g Rydych yn ymestyn oriau aelod o staff â chymwysterau priodol ar eich cyflogres fel y gall weithio ar y prosiect. Yn yr achos hwn, byddwn yn ariannu cost yr oriau ychwanegol a dreulir ar y prosiect a bydd angen i chi ein hysbysu am ei swydd.

Os ydych yn symud aelod presennol o staff i swydd sy'n cael ei chreu gan y prosiect, yna gallwn naill ai dalu cost yr aelod o staff hwn, neu gost ôl-lenwi ei swydd.

Dylai'r holl gyflogau fod yn seiliedig ar ganllawiau'r sector neu swyddi tebyg mewn manau eraill.

Ffioedd proffesiynol

Dylai ffioedd gyd-fynd â chanllawiau proffesiynol – er enghraifft, rhai RIBA – a dylent fod yn seiliedig ar fanyleb ysgrifenedig eglur.

Recriwtio

Gall hyn gynnwys hysbysebu a threuliau teithio. Rydym yn disgwyl i'ch sefydliad gyd-fynd ag arfer adnoddau dynol da a dilyn yr holl ddeddfau perthnasol.

Pris prynu eitemau treftadaeth

Os bydd eich prosiect yn cynnwys prynu eitem dreftadaeth, mae'n rhaid i chi gael prisiad annibynnol er mwyn helpu i ddangos y gellir prynu'r eitem hon am bris realistig. Ni allwch gynnwys costau yma os ydych yn unigolyn preifat neu'n sefydliad masnachol.

Gwaith atgyweirio a chadwraeth

Mae hyn yn cynnwys costau gwaith i atgyweirio, adfer neu warchod eitem, adeilad neu safle treftadaeth.

Costau digwyddiad

Costau ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau (er enghraifft, lluniaeth neu logi ystafell).

Allbynnau digidol

Unrhyw gostau sy'n ofynnol i chi greu 'allbynnau digidol' – y pethau yr ydych yn eu creu mewn fformat digidol sydd â'r nod o roi mynediad at dreftadaeth a/neu helpu pobl i ymgysylltu â threftadaeth a dysgu amdani. Er enghraifft, casgliad o ddelweddau neu ffeiliau sain digidol, adnodd neu arddangosfa treftadaeth ar-lein neu ap ffôn clyfar.

Offer a deunyddiau, gan gynnwys deunyddiau dysgu

Gallai hyn gynnwys gwisgoedd hanesyddol, hetiau caled i roi mynediad at safle, deunyddiau celf, neu daflenni a chyhoeddiadau.

Hyfforddiant i staff a hyfforddiant i wirfoddolwyr

Efallai y bydd angen hyfforddiant ar staff presennol a newydd i ymgymryd â'ch prosiect.

Teithio staff a theithio gwirfoddolwyr

Er enghraifft, i helpu staff a gwirfoddolwyr i deithio i safleoedd. Dylid seilio costau teithio ar 45c y filltir.

Treuliau i staff a gwirfoddolwyr


Gallwch gynnwys costau treuliau i staff a gwirfoddolwyr i wneud yn siŵr nad ydynt ar eu colled.

Arall

Defnyddiwch 'arall' ar gyfer unrhyw gostau nad ydynt yn dod o dan y penawdau cost penodol hyn. Rhowch ddisgrifiad eglur o'r costau hyn.

Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo

Gallwch gynnwys costau eich deunyddiau hyrwyddo sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch prosiect.

Mae'n rhaid ichi sicrhau eich bod yn cydnabod cefnogaeth y Loteri Genedlaethol a gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am sut i wneud hyn ar ein [gwefan](#) .

Gwerthuso

Mae'r pennawd cost hwn yn orfodol. Mae'n rhaid i bob prosiect gael ei werthuso. Yn dibynnu ar faint y prosiect a pha mor gymhleth ydyw, efallai y byddwch yn dymuno cyflogi rhywun arall i helpu i werthuso eich prosiect ac asesu pa un a ydych yn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd gennych yn eich cais yn llwyddiannus. Dylech neilltuo hyd at 5% o'ch costau i werthuso.

Eitemau digwyddiadol

Mae'r pennawd cost hwn yn orfodol. Defnyddir eitem ddigwyddiadol dim ond i dalu costau annisgwyl sy'n ofynnol i ddarparu eich prosiect. Gallai cyfanswm i ffigur ar gyfer eitemau digwyddiadol fod hyd at 10% o gyfanswm costau'r prosiect, oni bai fod gennych brosiect cyfalaf arbennig o gymhleth lle gallai fod angen lefel uwch. Gofalwch eich bod yn cynnwys eich eitemau digwyddiadol gofynnol yma yn unig, ac nad ydynt yn cael eu cynnwys ym mhenawdau cost eraill y cais.

Cyfanswm

Bydd y ffurflen ar-lein yn cynhyrchu cyfanswm costau eich prosiect.

3b. Incwm y prosiect

Dywedwch wrthym am unrhyw incwm prosiect o ffynonellau eraill o gyllid yr ydych yn disgwyl eu derbyn i'ch helpu i gyflawni'r prosiect.

Sylwer: caiff pob cais am grant ei dalgrynnu i lawr i'r £100 agosaf yn awtomatig. Gyda hyn mewn golwg, cofiwch wneud yn siŵr bod cyfanswm incwm y prosiect yn cyfateb yn union i gyfanswm y costau neu ni fydd y system yn caniatáu i chi barhau.

g Nid oes rhaid i chi wneud cyfraniad arian parod at gostau eich prosiect o dan y rhaglen grant hon.

Rydym yn annog ymgeiswyr i gyfrannu at eu prosiectau pryd bynnag y bo'n bosibl.

Sicredig

Mae sicredig yn golygu:

- arian parod yn eich banc sydd wedi ei gadw'n benodol ar gyfer y prosiect hwn
- arian grant a gynigiwyd yn ffurfiol.

Dylai eich cais am grant fod rhwng £3,000 a £10,000, a dylid ei dalgrynnu i lawr i'r £100 agosaf.

Cyfrifir % grant ar sail lefel incwm y prosiect o ffynonellau cyllid eraill.

3c. Cyfraniadau nad ydynt yn arian parod

Dywedwch wrthym am unrhyw gyfraniadau nad ydynt yn arian parod yr ydych yn disgwyl eu derbyn i'ch helpu i ymgymryd â'r prosiect.

g Gall cyfraniadau nad ydynt yn arian parod fod yn bethau sydd eu hangen arnoch ar gyfer y prosiect nad oes yn rhaid i chi dalu amdanynt – er enghraifft, y defnydd o ystafell mewn busnes lleol ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd neu ddeunyddiau sy'n cael eu rhoi gan gwmni adeiladu lleol.

Sylwer bod cyfyngiad o 30 o eiriau fesul 'disgrifiad' yma.

3d. Cyfraniad gwirfoddolwyr

Dywedwch wrthym am unrhyw gyfraniad gwirfoddolwyr yr ydych yn disgwyl ei dderbyn i'ch helpu i ymgymryd â'r prosiect.

g Pan ydym yn dweud gwirfoddolwyr, rydym yn golygu'r bobl sy'n cyfrannu eu hamser er mwyn helpu i ddarparu eich prosiect yn hytrach na chymryd rhan ynddo yn unig.

Gallai hyn gynnwys gwaith gweinyddol, arwain taith gerdded dywysedig, clirio safle, neu weithio fel stiward mewn digwyddiad.

Gallwch gynnwys costau ar gyfer hyfforddiant, teithio a threuliau gwirfoddolwyr yn adran 3a.

Bydd angen i chi nodi o'r gwymplen y lefel sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y dasg wirfoddoli. Dyma'r penawdau:

- **Gwirfoddolwr proffesiynol** (er enghraifft, cyfrifyddiaeth neu addysgu) – £50 yr awr
- **Gwirfoddolwr medrus** (er enghraifft, gwaith gweinyddol, gwaith coed neu arwain taith gerdded dywysedig) – £20 yr awr
- **Gwirfoddolwr** (er enghraifft, clirio safle neu weithio fel stiward mewn digwyddiad) – £10 yr awr

Bydd gwerth cyfraniad gwirfoddolwyr yn cael ei gyfrifo'n awtomatig yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir a sgiliau lefel detholedig.

4. Eich sefydliad

Byddwn yn eich holi am fanylion eich sefydliad yn y rhan hon o'r ffurflen.

4a. Cyfeiriad eich sefydliad

g Bydd cyfeiriad eich sefydliad yn llenwi'n awtomatig o'r wybodaeth a ddarparwyd gennych wrth greu eich cyfrif.

4b. Statws cyfreithiol eich sefydliad

Dewiswch yr opsiwn sy'n berthnasol i'ch sefydliad.

Awdurdod lleol

Sefydliad sector cyhoeddus arall

Elusen gofrestrdedig

Cwmni cofrestrdedig neu Gwmni Buddiannau Cymunedol

Sefydliad seiliedig ar ffydd neu eglwys

Grŵp Gwirfoddol neu Gymunedol

Perchennog preifat treftadaeth

Arall

g Awdurdod lleol

Pan fyddwn yn dweud awdurdod lleol, rydym yn golygu corff gweinyddol mewn llywodraeth leol, er enghraifft cyngor lleol.

Sefydliad sector cyhoeddus arall

Dewiswch yr opsiwn hwn os nad ydych yn awdurdod lleol ond yn atebol i'r llywodraeth (fel ysgol neu brifysgol y wladwriaeth).

Perchennog treftadaeth preifat

E.e. unigolion a sefydliadau masnachol.

4c. Dywedwch wrthym am brif ddiben a gweithgareddau rheolaidd eich sefydliad

g Rydym yn gofyn am y wybodaeth hon i'n helpu i asesu pa un a yw'r prosiect yr ydych yn dymuno ymgymryd ag ef yn cyd-fynd yn dda â phrif ddiben eich sefydliad a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni.

- Dywedwch wrthym am lywodraethiant eich sefydliad, e.e. faint o bobl sydd ar eich bwrdd neu bwyllgor rheoli, a oes ganddynt unrhyw sgiliau sy'n arbennig o berthnasol i'r prosiect hwn
- Disgrifiwch ddiben a nodau eich sefydliad
- Dywedwch wrthym faint o staff cyflogedig sy'n gweithio i'ch sefydliad
- Dywedwch wrthym faint o wirfoddolwyr sy'n rhan o'ch sefydliad
- Disgrifiwch weithgareddau rheolaidd eich sefydliad ac esboniwch sut y maent yn cael eu hariannu

Ceir cyfyngiad o 200 o eiriau ar gyfer y cwestiwn hwn

4d. A yw eich sefydliad yn unrhyw un o'r canlynol? Os felly, darparwch y wybodaeth y gofynnir amdani

Elusen gofrestredig yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban – rhowch rif cofrestru

Elusen a gydnabyddir gan Gyllid a Thollau EM yng Ngogledd Iwerddon – rhowch rif cyfeirnod

Cwmni neu Gwmni Buddiannau Cymunedol – rhowch rif cofrestru

4e. A ydych chi'n credu mai cenhadaeth ac amcanion eich sefydliad yw:

g Os yw eich sefydliad yn diffinio ei hun fel un sy'n cael ei arwain gan un o'r canlynol, neu mai un o'r canlynol yw ei genhadaeth, dewiswch yr opsiwn sy'n berthnasol.

- Dan arweiniad pobl dduon neu leiafrifoedd ethnig
- Dan arweiniad pobl anabl
- Dan arweiniad pobl LHDT+
- Dan arweiniad menywod
- Dan arweiniad pobl ifanc

Ac yng Ngogledd Iwerddon yn unig:

- Dan arweiniad pobl o'r cymunedau Catholig yn bennaf
- Dan arweiniad pobl o'r cymunedau Protestannaidd yn bennaf

4f. Manylion y prif gyswllt

g Mae'n rhaid bod gan y sawl yr ydych yn ei nodi ganiatâd swyddogol gan eich sefydliad i fod yn brif gyswllt â ni. Byddwn yn anfon yr holl ohebiaeth am y cais hwn at yr unigolyn hwn yn y cyfeiriad e-bost a roddir.

A yw cyfeiriad y prif gyswllt yr un fath â'r cyfeiriad yn 4a? Ydy/Nac ydy

Os nac ydy, nodwch gyfeiriad y prif gyswllt.

g Bydd y rhif ffôn yn ystod y dydd a'r cyfeiriad e-bost yn llenwi'n awtomatig o'r wybodaeth a ddarparwyd gennych wrth greu eich cyfrif.

Dywedwch wrthym am unrhyw anghenion cyfathrebu arbennig sydd gan y cyswllt hwn

Sylwer bod cyfyngiad o 50 o eiriau ar gyfer y cwestiwn hwn.

Ar gyfer prosiectau sydd wedi eu lleoli yng Nghymru, pa iaith ddylem ni ei defnyddio i gyfathrebu â'r prif gyswllt?

Dewiswch opsiwn.

Saesneg

Cymraeg

Y ddwy (dwyieithog)

Os nad yw'r prif gyswllt hefyd yn llofnodwr awdurdodedig ar ran eich sefydliad, rhowch fanylion llofnodwr awdurdodedig isod:

Rhowch fanylion yn y blwch testun.

4g. A yw'r sefydliad yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol? Os felly, rhowch rywfaint o wybodaeth i ni (er enghraifft, enw trydar eich sefydliad)

5. Dogfennau atodol

Isod, ceir y rhestr o ddogfennau atodol sy'n berthnasol i'r rhaglen grant hon. Os nad yw'r ddogfen atodol yn ymwneud â'r prosiect yr ydych yn ei gynnig, yna dewiswch 'amherthnasol'.

Peidiwch â chyflwyno unrhyw ddogfennau ychwanegol nad ydynt yn ymddangos isod.

Dylid darparu'r holl ddogfennau mewn fformat digidol (naill ai ynghlwm wrth y ffurflen gais neu wedi eu hanfon mewn e-bost i'ch swyddfa leol).

1. Dogfen lywodraethu (e.e cyfansoddiad)

 Dylai eich cyfansoddiad gynnwys:

- enw a nodau eich sefydliad
- datganiad sy'n atal eich sefydliad rhag dosbarthu incwm neu eiddo i'w aelodau yn ystod ei oes
- datganiad sy'n cadarnhau, os caiff eich sefydliad ei ddirwyn ei ben neu ei ddiddymu, y bydd asedau'r sefydliad yn cael eu dosbarthu i sefydliad elusenol neu ddielw arall ac nid i aelodau'r sefydliad
- y dyddiad y'i mabwysiadwyd a llofnod eich cadeirydd (neu rywun addas arall)

Os oes angen i chi ddarparu dogfen lywodraethu, gofalwch fod eich prosiect yn cyd-fynd â nodau eich sefydliad.

Nid oes angen i ni weld eich dogfen lywodraethu os:

- ydych yn sefydliad cyhoeddus (e.e. awdurdod lleol);
- ydych yn berchennog treftadaeth preifat.

2. Cyfrifon

Eich cyfrifon diweddaraf a archwiliwyd neu a ddilyswyd gan gyfrifydd.

Os ydych yn sefydliad sydd newydd gael ei ffurfio ac nad oes gennych gyfres o gyfrifon wedi eu harchwilio, cyflwynwch eich tair cyfriflen banc ddiwethaf neu lythyr gan eich banc yn cadarnhau eich bod wedi agor cyfrif.

Nid oes angen eich cyfrifon arnom os ydych yn sefydliad cyhoeddus (e.e. awdurdod lleol).

3. Llythyrau o gefnogaeth

Mae llythyrau o gefnogaeth yn ffordd dda o ddangos i ni bod gan bobl eraill ddiddordeb yn eich prosiect a'u bod wedi ymrwymo iddo.

Cyflwynwch ddim mwy na chwe llythyr o gefnogaeth gan y bobl sy'n cymryd rhan yn eich prosiect, yn hytrach na datganiadau cefnogol cyffredinol. Er enghraifft, os ydych yn bwriadu darparu gweithdai mewn clybiau ieuencid lleol yna bydd llythyr o gefnogaeth yn dangos i ni fod ganddynt ddiddordeb a'u bod eisiau cymryd rhan.

Os yw'n bosibl, dylai llythyrau fod ar bapur pennawd a/neu wedi eu llofnodi.

4. Arolwg cyflwr (os yw'n berthnasol)

Os yw eich prosiect yn ymwneud â gwarchod treftadaeth, mae'n rhaid i chi ddarparu arolwg cyflwr neu ddogfen briodol arall fel cynllun cadwraeth drafft neu amlinellol. Dylai'r ddogfen hon ein hysbysu am gyflwr presennol y dreftadaeth a'r gwaith sydd ei angen i ddychwelyd y dreftadaeth i gyflwr da.

Er enghraifft, os ydych yn bwriadu gwarchod cofeb rhyfel leol, bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'r cyflwr presennol a pha waith atgyweirio sydd ei angen. Dylai'r arolwg neu adroddiad hefyd nodi blaenoriaeth gymharol y gwaith arfaethedig (pa waith sydd fwyaf hanfodol ac y mae angen rhoi'r sylw mwyaf brys iddo).

Wrth gyflwyno dogfennau atodol, defnyddiwch enwau ffeil priodol fel y gall ein tîm asesu adnabod pob dogfen yn rhwydd.

Byddwn yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich cais pan fydd eich ffurflen ar-lein a'r holl ddeunydd atodol gennym.

Ni fyddwn yn gallu asesu eich cais os na fyddwn yn derbyn yr holl wybodaeth ofynnol.

6. Gwybodaeth ychwanegol a datganiad

Nod y rhan hon o'r ffurflen yw casglu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i adrodd ar yr amrywiaeth o sefydliadau yr ydym yn eu hariannu.


Un o amcanion ein gwaith yw y bydd treftadaeth yn fwy cynhwysol erbyn 2024. Rydym wedi ymrwymo i gael darlun cywir o'r amrywiaeth o sefydliadau sy'n gwneud cais i ni.

Byddwn yn gwneud y data demograffig a roddwch i ni yn ddiennw ac yn eu defnyddio i hysbysu ein polisi ac yn ein hadrodd cyhoeddus.

Dylech gynnwys yr holl wybodaeth sydd gennych ar gael (a gafaelir trwy fonitro ffurfiol, nid yn seiliedig ar dybiaethau neu wybodaeth anffurfiol). Peidiwch â darparu data os nad ydych yn siŵr.

Pan fyddwch yn cyflwyno eich ffurflen ar-lein, gofynnir i chi gadarnhau eich bod wedi darllen a deall ac yn cytuno â'r datganiadau a nodir yn y datganiad.

Cysylltwch â ni

Gallwch ddarganfod rhagor o wybodaeth trwy gysylltu â ni ar ein [gwefan](#). 

Os hoffech ddarganfod am ein proses gwynion, ewch i'n [gwefan](#). 

